




Ministry
of Justice

Post-Implementation Review of Part 1 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012

Welsh Translation Summary



CRYNODEB GWEITHREDOL

Trosolwg

1. Mae sicrhau bod unigolion yn gallu datrys eu problemau cyfreithiol yn hanfodol os ydym am gael cymdeithas gyfiawn ac mae'n rhaid bod pawb yn gallu defnyddio'r system gyfreithiol pan mae ei hangen arnyn nhw. Mae'n hanfodol bod pobl yn cael eu cefnogi trwy'r broses hon. Elfen graidd o'r cymorth hwn yw, a bydd yn parhau, mynediad at gyngor cyfreithiol sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus a chynrychiolaeth, lle bo angen am hynny. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Llywodraeth yn darparu cymorth cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y rheini sydd ei angen yn gallu defnyddio cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol.
2. Yn 2013, yn dilyn cyfnod maith o ehangu cymorth cyfreithiol y tu hwnt i'w fwriad gwreiddiol (gan wario ychydig dros £2 biliwn y flwyddyn), ac yng nghyd-destun y dirywiad economaidd ac o ganlyniad, cyllidebau cyfyngedig ar draws adrannau, dychwelodd y Llywodraeth Glymblaid at ei hegwyddorion cychwynnol a rhoi ar waith diwygiad sylweddol i'r sgôp am gymorth cyfreithiol, pwy oedd yn gymwys i'w gael, a'r ffioedd a delir o dan gymorth cyfreithiol.
3. Roedd y newidiadau hyn, ynghyd ag amcanion eraill, yn ceisio sicrhau y byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i fod yn gynaliadwy trwy ganolbwyntio ar y rheini sydd fwyaf ei angen a chreu arbedion sylweddol i'r trethdalwr. Mae'r newidiadau hyn wedi cyfuno i ddarparu system o gymorth cyfreithiol a'r llynedd, talwyd £1.6 biliwn o gymorth cyfreithiol.
4. Mae'r un egwyddorion hyn, sy'n ceisio darparu cymorth cyfreithiol effeithiol, effeithlon a chynaliadwy, yn parhau i lunio paramedrau'r cynllun heddiw. Tra bo'r tirlun cyfreithiol wedi newid ers i'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) ddod i rym, mae'n parhau i fod yn hollbwysig bod y rheini sydd angen cymorth cyfreithiol yn ei gael. Serch hynny, os oes yna ffynonellau ariannol eraill ar gael, mae'n rhaid archwilio'r opsiynau hyn yn llawn. Os oes modd darparu cymorth o'r fath yn ystod y camau cynnar gan arwain at greu mwy o opsiynau i ddatrys y problemau'n gynt, gallwn helpu llawer i osgoi yn llwyr yr angen i fynd i'r llys.
5. Sefydlwyd yr adolygiad ôl-weithredu hon gyda'r nod o asesu i ba raddau'r mae LASPO yn cyflawni ei amcanion o greu arbedion sylweddol i gost y cynllun trwy geisio darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer yr achosion y mae ganddyn nhw fwy o flaenoriaeth. Er bod LASPO wedi diwallu rhai o'i amcanion, drwy adolygu'r effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'u cael, rydym wedi llwyddo i ganfod nifer o heriau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn.
6. Mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw at y ffaith ein bod ni eisoes wedi gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol ers LASPO. Er enghraifft, rydym wedi ehangu'r gofynion am dystiolaeth sydd ei angen ar gyfer y porth trais domestig ar gyfer rhai gweithdrefnau i deuluoedd ac wedi ehangu sgôp cymorth cyfreithiol i garcharorion.
7. Mae'r broses adolygu wedi pwysleisio mai dim ond un rhan o'r broses yw cymorth cyfreithiol wrth ystyried mynediad at gyfiawnder. Rydym wedi clywed trwy gydol ein proses ymgysylltu mai, yn y rhan fwyaf o achosion, cyngor a chynrychiolaeth sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus yw'r math cywir ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos.

8. Wrth gyflawni system gyfiawnder fodern gan roi'r defnyddiwr yn ganolog iddi, mae'n rhaid i ni feddwl yn holistig ynghylch y bobl sy'n ei defnyddio a defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n llwyddo er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnyn nhw. Dyna pam, ynghyd â'r ddogfen hon, rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu lle rydym yn nodi'r amrywiaeth o gamau gweithredu yr ydym yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y gwaith cyfreithiol yn parhau i fod ar gael ac yn effeithiol yn y dyfodol, fel rhan o fframwaith ehangach o gymorth cyfreithiol¹.
9. Mae'n rhaid i'r cyfeiriad yn y dyfodol ganolbwyntio ar helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol yn gynnar trwy ddefnyddio technolegau newydd a meddwl yn arloesol am y ffordd y gallwn ni wella gwasanaethau i bobl ar draws Cymru a Lloegr. Mae gan dechnoleg y potensial i ehangu'r mynediad sydd i gymorth a bydd yn caniatáu'r Llywodraeth i ddefnyddio arian sy'n cael ei wario ar gymorth cyfreithiol yn fwy doeth.
10. Mae hwn wedi bod yn adolygiad cynhwysfawr ac rydym wedi bod yn ystyried yn wrthrychol yr hyn sy'n llwyddo, yr hyn nad yw'n gweithio, a pham. Mae hyn wedi bod yn hanfodol i lywio'r rhesymeg sydd y tu ôl i'r cyfeiriad newydd ar gyfer cymorth cyfreithiol, ond dim ond y cam cyntaf yn y broses yw hyn. Mae yna heriau i'w goresgyn ond mae hyn yn cael ei arwain gan y dystiolaeth, ac mewn cydweithrediad agos â'r bobl sy'n defnyddio ac yn darparu cymorth cyfreithiol.

Dulliau o ymgysylltu a chasglu tystiolaeth

11. Mae hwn wedi bod yn adolygiad agored, cydweithredol a gwrthrychol. I gyfrannu at ein data ein hunain, cynhaliodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder amrywiaeth o ymarferion ymgysylltu er mwyn deall yr effaith ychwanegol y mae LASPO wedi'i chael ac i gyfrannu at yr adolygiad ôl-weithredol. Ym mis Ebrill 2018, cynhaliodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder dri chyfarfod o'r grŵp ymgynghori gydag amrywiaeth o bartïon oedd â diddordeb yn y mater a'r dasg oedd ystyried effaith y 34 diwygiad pwysig; sut roedd gwahanol ddefnyddwyr y system gyfreithiol yn rhyngweithio gyda chymorth cyfreithiol yn ystod camau gwahanol o'u taith, a sut gellir gwella eu profiad trwy arloesedd, defnyddio mwy o dechnoleg a sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau mwy hygyrch ar gael.
12. Hefyd, cynhaliodd swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder gyfarfod o amgylch y bwrdd gydag aelodau uwch o'r farnwriaeth a chyfarfod â grwpiau llai o bartïon oedd â diddordeb er mwyn gwrandao ar amrywiaeth eang o sylwadau. Hefyd, cafodd y Weinyddiaeth dystiolaeth gan dros 80 o sefydliadau sydd wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn gallu cyfrannu at yr adolygiad hwn.

Newidiadau i sgôp cymorth cyfreithiol sifil a theuluol (Pennod 1)

Newidiadau i LASPO

13. O dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999², roedd mater cyfreithiol o fewn y sgôp ac yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, oni bai bod y Ddeddf³ yn ei heithrio'n gyfan

¹ Gweler: <https://www.gov.uk/government/Publications/legal-support-action-plan>

² Gweler: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1999/22/contents>

³ Mae eithriadau'n cynnwys anafiadau personol a niweidio eiddo, trawsglwyddo, anghydfodau ynghylch ffiniau, difenwad neu anwiredd maleisus, gwneud ewyllysiau, cyfraith ymddiriedaethau ac achosion busnes.

gwbl. Gwydrodd LASPO y sefyllfa hon ac yn lle hynny, rhestrodd faterion oedd o fewn y sgôp yn Atodiad 1 Rhan 1 LASPO.⁴ Roedd hefyd yn rhoi llwybr, trwy'r Cynllun Cyllid Achos Eithriadol (ECF), ar gyfer pobl sy'n ymgeisio am gymorth cyfreithiol mewn 'achosion nad ydynt yn rhan o sgôp cymorth cyfreithiol sifil a theuluol ond lle mae methu â gwneud hynny yn torri hawliau'r unigolyn i gael cymorth cyfreithiol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1988 neu gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, neu lle mae yna fudd cyhoeddus llawer ehangach a sylweddol mewn cyllido cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achosion cwest.

14. Ceisiodd y Llywodraeth Glymblaid ail-gyfeirio sgôp y cynlluniau cymorth cyfreithiol ar gyfer materion sifil a theuluol at y rheini sydd ei angen fwyaf trwy gael gwared yn gyfan gwbl ar nifer o feysydd sy'n rhan o'r sgôp, neu ddiwygio'r meysydd hynny gan ddefnyddio meini prawf penodol. Ar gyfer gweddill y meysydd, roedd y sgôp yn gyfyngedig i'r rheini y gwnaeth y Llywodraeth Glymblaid benderfynu oedd ymysg yr achosion oedd a mwyaf o flaenoriaeth. Mewn rhai ardaloedd (e.e. materion cyfraith lles cymdeithasol eraill neu esgeulustod clinigol) lleihawyd y sgôp yn sylweddol, ac mewn achosion eraill (e.e. camau gweithredu yn erbyn yr heddlu a chyfraith gyhoeddus) tynnodd is-gategorïau penodol o'r sgôp yn sgil diwygiadau llai.
15. Hefyd, gwnaed newidiadau o dan LASPO i gyflwyno elfennau gorfodol y Porth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA). Cyflwynwyd y Porth CLA er mwyn darparu gwasanaeth dros y ffôn syml a rhwydd. Yn dilyn LASPO nid oedd y rheini oedd ag anghenion ynghylch dyled, anffafiaeth (achosion oedd yn ymwneud â thorri Deddf Cydraddoldeb 2010) ag anghenion addysgol arbennig ond yn gallu cael at gyngor cyfreithiol pellach os oedden nhw yn gyntaf wedi gofyn am gyngor dros y ffôn er mwyn penderfynu a oedden nhw'n gymwys.
16. Gan fod y cymorth cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer rhai meysydd o'r gyfraith yn gyfyngedig, gwelwyd gostyngiad yn niferoedd yr achosion oedd yn cael eu hariannu'n gyhoeddus, ac mae gwariant wedi gostwng. Yn 2017-18, yn sgil y newidiadau i'r sgôp, gwelwyd gostyngiad o oddeutu £90m yng ngwariant cymorth cyfreithiol mewn achosion sifil a £160m mewn achosion teulu, o'i gymharu â'r £105m a £130m a amcangyfrifwyd yn yr asesiadau o effaith (IA) a ddaeth gyda'r Ddeddf.
17. Ar wahân i'r arbedion cyffredinol i'r cynllun, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith mewn achosion o esgeulustod clinigol, mae'r farchnad wedi addasu oherwydd cynnydd yn y defnydd o Gytundebau Ffi Amodol (CFA) sydd wedi galluogi cymorth cyfreithiol i gael ei dargedu at feysydd eraill. Ym maes mewnffudo a cheisio lloches, mae'r newid i'r sgôp wedi llwyddo i dargedu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion o geisio lloches, achosion oedd, ym marn y Llywodraeth, o'r flaenoriaeth uchaf yn y cyd-destun hwn.
18. Wedi dweud hynny, yn y categori camau gweithredu yn erbyn yr heddlu, nid yw'r niferoedd yng nghyswllt cymorth cyfreithiol wedi gostwng mor sylweddol ac y rhagwelwyd y byddent yn yr IA ac yn y categori cyfraith gyhoeddus, nid yw'r newid yn y sgôp wedi cyflawni'r amcan hwn yn llwyr, gan fod yr help cyfreithiol sydd ar gael yn parhau i fod rhywbeth yn debyg. Mewn rhai meysydd (fel anafiadau personol) mae graddau'r dirywiad yn y gostyngiad yn nifer yr achosion cyn LASPO yn ei gwneud hi'n anodd iawn penderfynu a yw'r gostyngiad yn dilyn cyhoeddi LASPO oherwydd y newidiadau a wnaed i'r sgôp a gyflwynwyd yn 2013.

⁴ Gweler: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/schedule/1/enacted>

19. Ym maes cyfraith lles cymdeithasol, mae lefelau cymorth cyfreithiol wedi gostwng mwy nag a ragwelwyd yn yr IA gwreiddiol, ym mhob un o'r meysydd. Tra bod angen mynd ati i fonitro hyn ymhellach ac yn barhaus wedi hynny, gall y tueddiad hwn fod oherwydd y diffyg ymwybyddiaeth bod cymorth cyfreithiol ar gael, clystyru problemau, neu ffactorau allanol eraill.

Pwyntiau pwysig a ddeilliodd o'r broses ymgysylltu

20. Er bod y newidiadau a wnaed i sgôp cymorth cyfreithiol sifil a theuluol wedi creu arbedion sylweddol, codwyd nifer o bwyntiau yn sgil y cam ymgysylltu ynghylch yr effaith ehangach y mae'r newidiadau hyn yn eu cael.
21. *Mae ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig* - Roedd llawer o randdeiliaid yn credu bod camu i mewn yn allweddol i helpu pobl i ddatrys eu problemau ac i ostwng y gost gyffredinol i bwrs y wlad. Er bod ymdrechion wedi bod i geisio gwneud hynny, mae angen mwy o dystiolaeth i feintoli'r effeithiau y gall ymyrryd yn gynnar eu cael a datblygu'r achos o blaid buddsoddi mewn ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys beth fyddai'r ffordd orau i'w ddarparu.
22. Mae *clystyru* (yn aml mae'r rheini sydd â phroblemau cyfreithiol yn annhebygol o fod â dim ond un mater sy'n achosi pryder iddyn nhw) - Mae llinell galed rhwng yr hyn sydd yn cael ei gynnwys ac sydd ddim yn cael ei gynnwys yn y sgôp yn golygu bod pobl yn gallu ateb rhai o'u clwstwr o broblemau, ond nid pob un ohonyn nhw. Awgrymodd rhanddeiliaid y dylai'r Llywodraeth ystyried ymgorffori cyngor cyfreithiol mewn gwasanaethau eraill; "gwasanaethau cyfreithiol seiliedig ar leoliad", gan nodi y gall "canolfannau un stop" fod yn effeithiol iawn, yn hawdd eu defnyddio ac yn ffordd o gefnogi'r bobl hynny sydd â chlystyrau o broblemau.
23. *Hunan-gynrychiolaeth* – Er bod angen canmol yr ymdrechion i symleiddio a moderneiddio prosesau'r llysoedd, roedd llawer o'r rhanddeiliaid o'r farn nad yw'r system eto mewn sefyllfa i allu cynorthwyo'r rheini sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Ni ystyrir cyngor ar-lein yn unig fel dewis amgen i gymorth cyfreithiol neu gynrychiolaeth. Roedd llawer yn dadlau bod yna amrywiaeth o opsiynau eraill a dylai fod ar gael i wasanaethu amrywiaeth eang o bobl a phroblemau.
24. *Anialwch cymorth cyfreithiol*– Roedd rhai rhanddeiliaid yn haeru bod llawer o gyfreithwyr wedi rhoi'r gorau i wneud gwaith cymorth cyfreithiol, gan arwain at anialwch cymorth cyfreithiol mewn rhai categorïau o'r gyfraith, yn arbennig ym maes mewnfudo a thai. Nodwyd bod anialwch cymorth cyfreithiol yn fwy tebygol o fodoli mewn ardaloedd gwledig lle mae pobl yn rhoi i fyny ceisio dod o hyd i gymorth oherwydd eu bod, yn sgil LASPO, un ai ddim yn gwybod sut i fynd ati i wneud hynny neu oherwydd ei bod yn rhy bell i deithio.

Ymateb y Llywodraeth

25. Mewn ymateb i bryderon a godwyd a syniadau a awgrymwyd, rydym wedi nodi yn y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol sut rydym yn bwriadu symud ymlaen o ran sgôp cymorth cyfreithiol sifil a theuluol.

26. Fel y nodir ym mharagraff 21 uchod, rydym wedi clywed dadleuon cryf bod ymyrryd yn gynnwys trwy gymorth cyfreithiol yn aml yn gallu helpu pobl i ddatrys eu problemau heb orfod troi at gymorth cyfreithiol na mynd i'r llys. Serch hynny, mae'n rhaid i ni sefydlu sylfaen dystiolaeth sy'n fwy cadarn trwy dreialu a gwerthuso gwahanol fathau o gymorth cyfreithiol cynnar⁵.
27. Byddwn yn archwilio sut gall cynhyrchion seiliedig ar y we, creu gwell ffyrdd o gyfeirio pobl at wasanaethau a chyfuno gwasanaethau cymorth ddarparu llwybrau i'r rheini sy'n ceisio cael help a chanllawiau i ddatrys eu problemau. Hefyd, byddwn yn treialu rhoi cyngor yn gynnwys wyneb-yn-wyneb mewn maes penodol o gyfraith lles cymdeithasol a chymharu hyn gydag atebion technegol, a defnyddio cyllid i annog a chefnogi arloesi wrth ddarparu gwasanaethau cymorth mewn ffyrdd newydd.
28. Rydym hefyd yn ymestyn sgôp cymorth cyfreithiol ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu mewn materion mewnfudo; cael gwared ar ofynion gofynnol i'r rheini sy'n ceisio cael help gyda materion fel anffafiaeth, dyled a chydag achosion anghenion addysgol arbennig trwy ddefnyddio'r porth dros y ffôn; a chyflwyno cynigion i ehangu sgôp cymorth cyfreithiol i ymdrin â gorchmynion gwarchodaeth arbennig mewn cyfraith teulu preifat.
29. I'r rheini sy'n ceisio cael help a chymorth i ddeall y system gyfreithiol, byddwn yn gwella'r cymorth y mae'r Weinyddiaeth Gyfreithiol a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (HMCTS) yn ei gynnig i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Byddwn hefyd yn gweithio gyda gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'r sector cynghori i archwilio cyfleoedd i symleiddio'r cynllun ECF a sicrhau ei fod yn gweithio mor effeithiol â phosibl.
30. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i bobl fod yn ymwybodol bod cymorth ar gael, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Byddwn yn lansio ymgyrch newydd er mwyn gwella ymwybyddiaeth o sut mae pobl yn gallu cael at yr help sydd ei hangen arnyn nhw i ddatrys eu problemau (yn ddefnyddol, cyn eu bod yn datblygu i fod yn broblemau cyfreithiol); byddwn yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth, gan gynnwys grwpiau traws-lywodraethol cyfredol, ac yn dod ag adrannau ynghyd a helpu darparwyr i ganolbwyntio ar ffyrdd i leihau'r galw sydd am y gwasanaeth y mae modd ei atal.

Newidiadau i sgôp cymorth cyfreithiol sifil a theuluol (Pennod 2)

Newidiadau i LASPO

31. Gwnaeth LASPO bedwar newid i'r meini prawf sifil a theuluol ond dim newidiadau i ddiwygiadau sylweddol i'r profion modd neu'r asesiadau.
32. Nod y diwygiadau oedd targedu'r ddarpariaeth o arian cyhoeddus at y rheini oedd fwyaf anghenus yn ariannol a sicrhau bod y rheini sy'n gallu fforddio talu rhywfaint tuag at eu costau cyfreithiol, neu eu holl gostau, yn gwneud hynny. Bwriadwyd iddynt hefyd leihau cyfreitha diangen pan nad oedd sicrwydd o lwyddiant.

⁵ Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan>

33. Yn dilyn LASPO, roedd yn rhaid i unrhyw un oedd yn ymgeisio am gymorth cyfreithiol gyflawni prawf modd cyfalaf; gofynnwyd i rai o'r bobl oedd yn gallu fforddio talu i gyfrannu at eu cynrychiolaeth yn sgil cymorth cyfreithiol.
34. Hefyd, roedd y rheoliadau a wnaed o dan LASPO yn cael gwared ar yr achosion hynny lle nad oedd sicrwydd o lwyddiant o sgôp cymorth cyfreithiol; ymestynnodd yr amgylchiadau lle bod eiddo y dadleuir yn ei gyloch yn cael ei gynnwys yn y prawf cymhwysedd ariannol, er mwyn sicrhau nad yw unigolion sy'n dadlau ynghylch perchenogaeth eiddo drud iawn ddim yn gallu osgoi unrhyw archwiliad ariannol.
35. Mae'r newidiadau i gymhwysedd ariannol sifil a theuluol wedi cyfrannu at yr arbedion a wneir i gost y cynllun, er, roedd cyfanswm y swm a arbedwyd drwy'r newidiadau hyn bob amser â'r bwriad o fod gryn lawer yn is na'r arbedion a ddeuai yn sgil y newidiadau i'r sgôp a'r ffioedd (fe'i trafodir ym mharagraffau 43 i 52 isod ac ym Mhenod 3). Llwyddwyd i wneud arbedion yn y maes hwn yn bennaf oherwydd y gofynnwyd i'r holl ymgeiswyr sefyll y prawf modd cyfalaf sydd wedi arwain ar gyfartaledd at arbedion o thua £9m y flwyddyn, sef y lefel yr amcangyfrifwyd yn yr IA gwreiddiol.
36. Mae'r newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd sifil a theuluol yn golygu bod cymorth cyfreithiol nawr wedi'i dargedu at gohort llai o lawer o bobl. Tra bod y gyfradd grant cynrychiolaeth sifil wedi cynyddu o 82% yn 2012-13 i 93% yn 2017-18, mae nifer y ceisiadau wedi gostwng yn sylweddol.

Pwyntiau pwysig o'r broses ymgysylltu

37. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai o'r rheini mewn angen wedi cael cymorth cyfreithiol un ai o ganlyniad i brawf uwch neu oherwydd yr anawsterau mewn cael y dystiolaeth ariannol berthnasol i gefnogi cais.
38. O ran cyfraniadau, mae llawer wedi dadlau (ac mae rhai wedi cefnogi'r ymchwil) trwy gydol y broses ymgysylltu bod y trothwy wedi'i osod ar lefel lle mae llawer o bobl sydd ar incwm isel yn gorfod talu cyfraniad nad ydynt yn gallu ei fforddio tra'n cynnal safon byw sy'n gymdeithasol dderbyniol. Daeth nifer o'r partion a gyfrannodd at yr adolygiad i'r canlyniad, fel y rhagwelwyd yn yr IA, y byddai llawer o bobl yn mynd i'r afael â phroblemau cyfreithiol mewn ffyrdd eraill, h.y. 'benthyciadau ymglyfreitha', McKenzie Friends, ac rydym wedi gweld cynnydd mewn achwynwyr personol yn y llysoedd.
39. Ar wahân i'r sylwadau a godwyd ynghylch diwygiadau i gymwyseddau penodol, barn fwyaf cryf y rheini oedd yn ymwneud â'r prosiect oedd y dylai LASPO fod wedi newid y cynllun prawf modd yn sylweddol fel ei fod yn cyd-fynd yn well â safonau byw cyfredol.

Ymateb y Llywodraeth

40. Mewn ymateb i bryderon a godwyd a syniadau a awgrymwyd, yn y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol⁶ rydym wedi nodi sut rydym yn bwriadu symud ymlaen o ran cymwyseddau sifil a theuluol.

⁶ Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan>

41. Fel y'i trafodwyd uchod, ni wnaeth LASPO newidiadau sylweddol i'r meini prawf ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a theuluol. Wedi dweud hynny, rydym yn credu ei bod hi'n amser i edrych ar y profion modd. Byddwn yn cynnal adolygiad i'r trothwyon ar gyfer hawl i gymorth cyfreithiol, a'r modd y maen nhw'n rhyngweithio gyda meini prawf ehangach. Tro bod yr adolygiad yn parhau, byddwn yn dal ati gyda'r trefniadau presennol i symud holl ddeiliad credyd cynhwysol trwy'r prawf modd.
42. Hefyd, rydym yn awyddus i fynd i'r afael â phryderon penodol o ran cymhwysedd cymorth cyfreithiol teuluol penodol a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer ymestyn cymhwysedd y rheini sy'n derbyn cymorth cyfreithiol heb fod yn gysylltiedig â phrawf modd neu'r rheini sydd â chyfrifoldebau rianta, sy'n dymuno gwrthwynebu ceisiadau am orchmynon lleoliad neu fabwysiadu mewn achosion cyfraith deulu gyhoeddus.

Newidiadau i ffioedd sifil a theuluol (Pennod 3)

Newidiadau i LASPO

43. Cynigiodd y Llywodraeth Glymblaid wneud newidiadau cymharol syml i'r ffioedd a delir mewn achosion sifil a theuluol yn hytrach na mynd ati i ailstrwythuro'r ffioedd yn gyfan gwbl. Yng ngoleuni'r angen i leihau'r gwariant cyffredinol ar gymorth cyfreithiol, roedd y Llywodraeth Glymblaid o'r farn bod angen ystyried cyfleoedd i wneud arbedion pellach. Roedd rheoliadau a wnaed o dan LASPO yn lleihau'r ffioedd a dalwyd i gyfreithwyr mewn materion sifil a theuluol ac yn gwneud newidiadau a fyddai'n rhoi gwell eglurder a rheolaeth o ran taliadau.
44. Hefyd, cafodd y cynnydd yn rhai o'r cyfraddau bob awr eu capio neu cafwyd gwared arnyn nhw a chyfyngedig oedd y taliadau am waith cyn-caniatâd ar Adolygiadau Barnwrol.
45. Mae'r polisïau wedi arwain at greu arbedion cyfunol yn 2017-18 o £110m. Mewn rhai meysydd, mae'r diwygiadau wedi arbed mwy na chafodd ei amcangyfrif yn yr IA gwreiddiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod niferoedd yn cynyddu mewn rhai meysydd lle rhoddwyd y newidiadau i'r ffioedd ar waith (er enghraifft mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus) ac wedi arwain at fwy o gyfleodd yn cael eu creu ar gyfer gwneud arbedion.
46. O ran peidio ag annog ymgyfreithiad diangen ar draul y cyhoedd, mae cael gwared ar godiad yn ffioedd ar gyfer apeliadau tribiwnlys uwch ym maes mewnfudo a cheisio lloches wedi rhoi'r cyfrifoldeb ar y darparydd i benderfynu a yw hi'n bosibl i apêl lwyddo. Ni welwyd gostyngiad yn nifer yr achosion hyn ar y cychwyn ond ers hynny, mae'r niferoedd wedi gostwng. Anodd yw rhoi rheswm dros yr effaith y mae'r newid yn y ffi hon wedi'i gael gan fod nifer o ffactorau eraill (materion fel amrywiaeth mewn diwygio rheolau mewnfudo ehangach) sy'n effeithio ar niferoedd, ac felly, nid yw'n bosibl dod i benderfyniad cadarn ynghylch y mater.
47. Wedi dweud hynny, mae cael gwared ar gyllid ar gyfer camau cyn-caniatâd ar gyfer adolygiadau cyfreithiol wedi helpu i gael gwared ar ymgyfreithiad diangen ac andwyol ar draul y pwrs cyhoeddus, er, unwaith eto, mae yna ddiwygiadau ehangach yn dylanwadu ar y tueddiadau hyn. Mae niferoedd yr adolygiadau cyfreithiol sy'n cael eu hariannu gan gymorth cyfreithiol wedi gostwng 20%, er, mae'r niferoedd o dystysgrifau a gyflwynwyd ar gyfer camau diwethaf y broses (h.y. y cam ôl-ganiatâd) wedi cynyddu 16%.

Pwyntiau pwysig o'r broses ymgysylltu

48. Un o'r prif bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymarfer ymgysylltu oedd bod, o ganlyniad i'r gostyngiad yn y ffioedd, y proffesiwn cyfreithiol bellach ddim yn denu'r genhedlaeth nesaf o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol. Adroddodd Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifanc bod cyflogau isel, ynghyd â lefelau uchel o ddyledion yn sgil ffioedd dysgu, yn eu rhwystro rhag ymuno â'r proffesiwn.
49. Dadleuodd eraill *“mae cyfraddau cymorth cyfreithiol wedi gwneud meysydd o'r gyfraith sy'n weddol fach, cyfraith addysgol er enghraifft, yn anymarferol yn ariannol oni bai bod cwmnïau preifat neu elusennau'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith cymorth cyfreithiol.”* Awgrymodd un grŵp o ymarferwyr: “bellach, mae rhai cwmnïau yn ‘dewis a dethol’ achosion fyddai'n creu elw iddyn nhw gan droi eu cefn ar gleientiaid gydag amgylchiadau ariannol mwy cymhleth neu waith lle nad oes modd creu elw – gwaith fel cymorth cyfreithiol.”
50. Ar y cyfan, mae'r sector cynghori a'r trydydd sector wedi adrodd cynnydd yn y galw sydd am wasanaethau ers LASPO. Fodd bynnag, fel y dadleuodd llawer, ni all y sefydliadau hyn 'lenwi'r bylchau' os yw ymarferwyr cyfreithiol yn absennol. Mae ffynonellau ariannu eraill, fel cyllid gan awdurdodau lleol, eisoes wedi cael eu gostwng a dywed bod sefydliadau dielw, sy'n gweithio'n bennaf yng nghategoriâu cyfraith lles cymdeithasol a mewnfudo, yn gadael y farchnad cymorth cyfreithiol.

Ymateb y Llywodraeth

51. Ers 2012-13, mae cyfanswm y gwariant ar waith cymorth cyfreithiol sifil wedi gostwng 25% ac o ganlyniad, mae nifer y darparwyr sy'n ymgymryd â gwaith sifil gyda chymorth cyfreithiol wedi gostwng 32% (gan amrywio rhwng y gwahanol feysydd o gyfraith sifil). Mae cyfartaledd yr incwm fesul darparwr cymorth cyfreithiol sifil wedi cynyddu 11%. Mae hefyd yn bwysig nodi yn y broses tendro fwyaf diweddar, gyda'r contractau newydd wedi dechrau ar 1 Medi 2018, mae nifer y darparwyr wedi cynyddu i 3568 a gwelwyd cynnydd ym mhob maes arall o'r gyfraith heblaw am esgeulustod clinigol. Mae ystadegau adolygiad o gyfoedion yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn awgrymu bod ansawdd y ddarpariaeth ar y cyfan wedi parhau'r un fath ers cyhoeddi LASPO.
52. Er bod y data'n dueddol o awgrymu bod y farchnad yn gynaliadwy ar hyn o bryd, mae yn amlwg bod yna feysydd y mae'n rhaid i ni edrych arnyn nhw ymhellach o ran taliadau ym maes cymorth cyfreithiol sifil a theuluol. Yn gyntaf, rydym yn awyddus i weld canlyniadau'r treialon a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 26 a 27 uchod.

Newidiadau i gymorth cyfreithiol mewn achosion troseddol (Pennod 4)

Newidiadau i LASPO

53. Gwnaed nifer o newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol o dan LASPO, yn bennaf ynghylch y ffioedd a delir i gyfreithwyr ac adfocadau, ond hefyd, rhai newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd a'r trefniadau o ddarparu cymorth cyfreithiol i garcharorion.
54. Roedd gwneud arbedion sylweddol yn brif ysgogydd ar gyfer gwneud diwygiadau i gymorth cyfreithiol. Mae cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei arwain yn ôl galw gan

fod y mwyafrif o'r achosion sy'n galw am gymorth cyfreithiol yn bennaf yn cael eu penderfynu gan nifer y bobl sy'n cael eu harestio a'r troseddau a gaiff eu herlyn. O ran cyfanswm, rydym yn amcangyfrif bod y newidiadau yn y ffoedd wedi arbed £140 miliwn y flwyddyn.

55. Ers y diwygiadau i LASPO (y rheini a gafodd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn), mae yna ostyngiadau sylweddol iawn wedi bod yn nifer yr achosion o gymorth cyfreithiol yn Llys yr Ynadon ac yn Llys y Goron. Ar y cyfan, mae grantiau cymorth cyfreithiol yn Llys yr Ynadon wedi gostwng 45%, o 431,000 i 236,000 rhwng 2010-11 a 2017-18, tra bod nifer *Litigators' Graduated Fee Scheme* (LGFS) (procsi da ar gyfer y nifer sy'n cael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron) wedi gostwng 27% o 130,000 i 95,000 rhwng 2010-11 a 2017-18.
56. Yn arferol, byddai'r gostyngiad yn y niferoedd a ddisgrifir uchod yn arwain at ostyngiad tebyg mewn gwariant; ers 2012, rydym wedi gweld cynnydd yng nghyfarfaleddau costau achosion cymorth cyfreithiol yn yr Uchel Lys, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion gyda nifer uchel o dystiolaeth erlyn.
57. Mae effaith cyfunol y diwygiadau i gymorth cyfreithiol troseddol o dan LASPO wedi creu arbedion sylweddol i gost y cynllun. Wedi dweud hynny, mae'r arbedion yn llai nag y rhagwelwyd yn wreiddiol gan fod llai o achosion yn bodoli lle'r oedd hi'n bosibl arbed arian.

Pwyntiau pwysig o'r broses ymgysylltu

58. Yn ystod y cam casglu tystiolaeth, cydnabuwyd bod y newidiadau i gostau troseddol yn gynyddol wedi effeithio ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol. Cyflwynodd Gyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr dystiolaeth o'u harolygon diweddaraf oedd yn dadlau y dywed 43% o ymatebwyr y Bar bod eu harferion wedi cael eu heffeithio'n sylweddol; ac i gyfreithwyr, bod y gostyngiad mewn ffi o 8.75% wedi cynyddu'r tebygolrwydd o ddarparwyr yn dioddef o straen a phryder. Felly roeddynt yn haeru bod darparwyr bellach yn troi at yrfaedd neu gyflogwyr eraill (fel Gwasanaeth Erllyn y Goron (y CPS)).
59. O ran diwygiadau i gyfraith carchardai, dadleuodd rhanddeiliaid bod LASPO yn syml wedi symud costau i rannau eraill o'r Llywodraeth, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi (HMPPS), ac y gall y gost o hyd orbwyso cyfraith a darpariaeth gyferbyniol. Mae ynysu effaith LASPO yn hytrach na'i gymharu ag amrywiaethau eraill ar draws y system garchardai a chymdeithas ehangach yn gymhleth; mae hyn yn golygu nad oes yna ddata clir ar gael i ddilysu'r ddatl y nghylch symud costau. Felly, nid yw hi'n bosibl dod i ganlyniad pendant ynghylch i ba raddau y mae sgôp cyfraith carchardai yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.
60. Casglwyd tystiolaeth anecdotaidd hefyd lle'r oedd lefelau carcharorion yn parhau i fod â'r un lefel a math o bryderon ac nid oes ganddyn nhw hyder yn y dulliau amgen i ddatrys eu problemau. Ni allwn ddweud o'r data sydd a'r gael i ni sut mae carcharorion yn datrys eu problemau erbyn hyn ac a yw'r carcharorion yn dewis peidio â herio mater.

61. Cododd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol bryderon ynghylch dibyniaeth y Llywodraeth ar ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau i garcharorion, sydd wedi cael ei ddisgrifio fel dull sy'n anaddas a/neu sy'n aneffeithiol⁷. Yn ôl yr *Howard League for Penal Reform* a'r Gwasanaeth Cyngori Carcharorion, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ceisiadau am eu llinellau ffôn cyngori⁸ a dywedodd Howard League bod diffyg cymorth cyfreithiol penodol ar gael i garcharorion ifanc, yn ystod ac ar ôl iddyn nhw gael eu dedfrydu.
62. Tra bod y data a gedwir yn ganolog ar gwynion yn gyfyngedig, mae nifer y cwynion i Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Phrawf (PPO) wedi gostwng ers cyn LASPO, o 5,291 yn 2010-11 i 4,790 yn 2017-18.
63. Er na chyflwynwyd unrhyw ddata i gefnogi'r ddadl, awgrymodd Cymdeithas Droseddol y Bar bod cael gwared ar gymorth cyfreithiol wedi arwain at gynnydd yn y problemau all arwain at ragor o broblemau neu ddedfrydau hirach i garcharorion, gan arwain at gynnydd yng ngwariant y Llywodraeth. Yn ôl y rhai oedd â diddordeb a sefydliadau, roedd yn broblemau gyda'r cynllun ECF; fe'i disgrifiwyd fel rhwyd ddiogelwch anghymwys i'r carcharorion hynny nad ydynt yn gallu cael at gymorth cyfreithiol ac sy'n datgan bod y broses ymgeisio yn hynod astrus i garcharor cyffredin ei gwblhau.
64. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod ynghylch rhai materion sy'n ymwneud â chyfraith carchardai, dylai carcharorion gael cymorth trwy gymorth cyfreithiol ac ers hynny, wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i ehangu'r sgôp.

Ymateb y Llywodraeth

65. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd a'r awgrymiadau a wnaed, rydym wedi amlinellu yn y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol sut rydym yn bwriadu symud ymlaen gyda ffioedd cymorth cyfreithiol.⁹
66. Y llynedd, fe wnaethon ni wneud nifer o ddiwygiadau i'r Cynllun Ffioedd Uwch-advocadau (AGFS). O dan y newidiadau diweddaraf, rydym wedi cynyddu'r cyllid cyffredinol ar gyfer y cynllun £23 miliwn o'i gymharu â'r gwariant ar AGFS yn 2016-17 gan dargedu'r gwariant ychwanegol hwn at advocataid iau.
67. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod angen i ni edrych eto ar y mater hwn ac felly, byddwn yn cynnal adolygiad ehangach o gynlluniau cymorth cyfreithiol troseddol. Mae hyn o ganlyniad i bryderon sy'n parhau o ganlyniad i'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun AGFS, adroddiadau'r Pwyllgor Dethol Cyfiawnder ar gymorth cyfreithiol troseddol a datgelu mewn achosion troseddol, adolygiad y Twrnai Cyffredinol ar ddatgelu, a'r newidiadau ehangach ar draws y system gyfiawnder gan gynnwys y gwaith moderneiddio y mae'r Swyddfa Gartref, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi yn ei wneud. Cred y Llywodraeth bod hwn yn amser priodol i gynnal adolygiad mwy holistig i gynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol.

⁷ Ewch i: <https://publications.parliament.uk/pa/jt201314/jtselect/jtrights/100/100.pdf>

⁸ Ewch i: <http://www.prisonersadvice.org.uk/about/how-we-do-it/>

⁹ Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan>

Newidiadau i ffioedd tystion arbenigol (pennod 5)

Newidiadau i LASPO

68. Mae rheoliadau a wnaed o dan LASPO (ac o dan y Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder cyn hynny) hefyd wedi diwygio'r ffioedd a delir i arbenigwyr mewn gweithdrefnau sifil, teuluol a throseddau gan geisio rheoli'r costau a gaiff eu gwario ac er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb. Yn fyr, roedd y diwygiadau i'r ffioedd arbenigwyr yn cynnwys codeiddio'r cyfraddau a'r ffioedd fesul awr a delir a'u gostwng 10% yna, yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau, eu gostwng 20% ymhellach.
69. Mae'r polisïau wedi arbed £30 miliwn y flwyddyn i'r gronfa cymorth cyfreithiol – yn unol â'r amcangyfrif yn yr IA. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol oherwydd y newid yn y mathau o achosion a glywir ym maes cymorth cyfreithiol sifil a theuluol gan fod y data sydd ar gael i ni'n awgrymu bod, ar gyfartaledd, y swm a gaiff ei wario fesul achos wedi gostwng ers y diwygiadau, o'r amcangyfrif o £610 yn 2010-11 i tua £470 yn 2017-18. Yn ogystal, gostyngodd y defnydd o arbenigwyr mewn achosion teuluol oherwydd diwygiadau i gyfraith teulu yn 2014 (pan gyflwynwyd yr Amlinelliad o Gyfraith Cyhoeddus) er, mae'r niferoedd nawr yn cynyddu.

Y prif bwyntiau o'r broses ymqysylltu

70. Tra bo'r newidiadau i ffioedd arbenigwyr wedi arwain at arbedion i gostau'r cynllun, os yw'r newidiadau wedi creu problem i argaeledd tystion arbenigol, dadleuwyd nad yw'r newidiadau i'r ffioedd wedi arwain at werth am arian cyffredinol i'r trethdalwr. Aeth rhanddeiliaid oedd â diddordeb yn y mater ati i egluro'r anhawster sydd o ran tystion arbenigol mewn achosion lle defnyddio cymorth cyfreithiol i dalu ffioedd yr achos.

Ymateb y Llywodraeth

71. Bydd y Llywodraeth yn parhau i sicrhau bod pob agwedd ar dalu ffioedd yn cynrychioli gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys y ffioedd sy'n cael eu talu i arbenigwyr ar hyn o bryd. Mae yna brosesau mewn lle sy'n caniatáu i ffioedd uwch gael eu talu mewn achosion eithriadol.

Cael gwared ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a ffurfio Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) (pennod 6)

72. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi adroddiad adrannol o'r LAA, wedi'i seilio ar ddangosyddion perfformiad allweddol a llywodraethu mewnol.¹⁰ Wedi dweud hynny, mae sawl thema wedi cael eu hystyried ym mhennod 6, yn deillio o'r cam casglu tystiolaeth ac fel arall, er mwyn ystyried ymhellach y cyfnod pontio rhwng y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn newid i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). Mae'r rhain yn cynnwys effeithiolrwydd yr LAA wrth wneud penderfyniadau a chael gwared ar nifer o swyddogaethau'r LSC, swyddogaeth fel cynnal ymchwil ynghylch mynediad i gyfiawnder.
73. Mae rhai partiön a fynegodd ddiddordeb yn y mater hwn wedi mynegi pryder bod y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (DLAC) yn gweithio'n llawer rhy agos at y Gweinidogion pan mae hi'n dod i wneud penderfyniadau. Cafodd y newidiadau a

¹⁰ Mewnosodwch y ddolen pan fydd ar gael

wnaed o dan LASPO eu gwneud yn fwiadol er mwyn sicrhau annibyniaeth ac osgoi ymyrraeth wleidyddol.

Y Canlyniad a'r Camau Nesaf

74. Er mwyn ein helpu i lunio'r adolygiad, fe gynhaliwyd rhaglen ymgysylltu helaeth ac agored oedd yn cynnwys sefydliadau, academyddion, pobl sy'n defnyddio'r system cymorth cyfreithiol, a phartion eraill oedd â diddordeb ar draws y system gyfiawnder. Mae'r ymarfer hwn wedi tynnu sylw at y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y sector cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â'r dymuniad sydd i gydweithio er mwyn dod o hyd i atebion ar gyfer y dyfodol.
75. Fel y'i amlinellir yn y termau cyfreithio ar gyfer yr adolygiad hwn¹¹, mae'r data cynorthwyol, yn bennaf, wedi deillio o ffynonellau mewnol er mwyn creu darlun o'r rheini sy'n rhyngweithio â'r system gymorth gyfreithiol, pa fath o achosion sy'n cael eu prosesu, beth yw cyfran y ceisiadau llwyddiannus a sut mae gwariant yn newid ar draws y system cymorth cyfreithiol. Wedi dweud hynny, mae'r adolygiad hefyd wedi tynnu sylw at ble mae'r bylchau yn yr wybodaeth.
76. Ar y cyd â'r adolygiad hwn, rydym wedi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol (y cyfeiriwyd ati trwy'r ddogfen).¹² Trwy gydol yr adolygiad hwn, rydym wedi tynnu sylw at y meysydd lle rydym wedi clywed barn gref y rheini yr ydym wedi bod yn ymgysylltu â hwy, y meysydd hynny lle mae angen i ni wneud mwy, lle mae angen i ni weithio mewn ffyrdd gwahanol neu brofi neu dreialu rhai syniadau er mwyn sicrhau bod ein system cymorth gyfreithiol wedi'i seilio ar bolisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gweithredu'n effeithiol er mwyn bod yn decach i'r rheini sydd ei hangen.
77. Mae cyfiawnder yn ganolog i gymdeithas ddiogel, deg a ffyniannus ac mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwmo i ddiogelu a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael mynediad at gyfiawnder.

¹¹ Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/post-implementation-review-of-laspo>

¹² Gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/legal-support-action-plan>



© **Crown copyright 2019**

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.